John Laing: 1879-1978

Ffrind yr adeiladwyr

Rhannu / cyfeillgarwch / ffyddlondeb

Pan fyddwch chi'n mynd ar daith ar hyd y ffyrdd a'r traffyrdd fyddwch chi'n gweld yr enw LAING? Cwmni sy'n adeiladu ffyrdd ac adeiladau ydi'r cwmni hwn. Mae'n gwmni mawr iawn erbyn heddiw. Mae'r cwmni yn adeiladu ym Mhrydain a thrwy Ewrop. Yn ystod cyfnod yr Ail Ryfel Byd y dechreuodd y cwmni ar ei waith o ddifri. Enw'r sylfaenydd oedd John Laing.

Byddai John Laing bob amser yn gofalu am ei weithwyr. Un diwrnod aeth John, yn ôl ei arfer, i weld ei weithwyr. Sylwodd fod dreifar y craen mawr yn edrych yn flinedig. Aeth ato am sgwrs.

"Wyt ti'n teimlo'n iawn?" gofynnodd John iddo, "rwyt ti'n edrych yn flinedig iawn."

"Ydw, mi ydw i'n flinedig iawn. Mae fy ngwraig yn wael iawn. Mae'n rhaid i mi wneud popeth cyn dod i'r gwaith yn y bore. Ar ôl mynd adref bydd rhaid i mi ofalu am y plant a'r wraig, glanhau a choginio."

Gwrandawodd John arno ac ymhen ychydig daeth yn ei ôl at y dyn. Roedd wedi bod heibio i'w gartref i weld ei wraig ac meddai wrtho, "Dos adref am bythefnos i ofalu am dy wraig. Paid â phoeni, fe gei di dy gyflog yn llawn."

Dyma sut oedd John yn trin ei weithwyr bob tro. Ef oedd y cyntaf un i helpu'r gweithwyr gyda'u cynilion. Byddai'r gweithwyr yn rhoi swllt (5c) o'u cyflog a byddai cwmni Laing yn rhoi swllt (5c) ato. Ar ddiwedd y flwyddyn byddai'r arian yn talu am wyliau i deulu'r gweithwyr. Hefyd roedd y cwmni yn paratoi'r gweithwyr i gasglu arian tuag at eu pensiwn.

Doedd John Laing a'i wraig, Beatrice, byth yn meddwl amdanyn eu hunain. Pan symudodd y cwmni i Lundain fe adeiladodd John dŷ iddo ef, ei wraig a'i ddau fab. Doedd hwn ddim yn dŷ mawr, crand. Tŷ maint cyffredin oedd hwn ond roedd un peth yn wahanol ynddo i'r tai eraill. Roedd arwydd yn yr ardd yn gwahodd pobl i eistedd yng ngardd y tŷ i fwynhau'r planhigion a'r olygfa o gwmpas.

Ar y 3ydd o Fedi 1939 fe ddaeth llais y Prif Weinidog dros y radio i ddweud fod Prydain a'r Almaen wedi dechrau rhyfela.

John Laing: 1879–1978

Ymhen rhai wythnosau byddai John yn 60 oed. Hwn oedd ei gyfnod prysuraf. Byddai'r awyrennau yn hedfan dros y dinasoedd, dros ddinas Coventry gan ollwng cannoedd o fomiau. Lladdwyd 568 o bobl ac anafwyd llaweroedd. Syrthiodd bomiau ar Eglwys Gadeiriol y ddinas. Y noson honno, roedd tŵr yr eglwys yn disgleirio yng ngolau'r lleuad. Tybed oedd y peilotiaid wedi camgymryd yr eglwys gan feddwl mai to ffatri oedd yno? Gollyngwyd bom ar ôl bom ar yr adeilad.

Ar ôl i'r awyrennau fynd heibio, a'r wawr yn torri, fe welwyd y difrod a wnaed. Yn ôl un o glerigwyr yr eglwys gadeiriol, fe ddywedodd, "Mi wnawn ni ailadeiladu'r eglwys er gogoniant i Dduw."

Rai blynyddoedd yn ddiweddarach, cychwynnwyd y gwaith o ailadeiladu'r eglwys. Rhoddwyd y gwaith i gwmni Laing. Roedd John erbyn hyn yn 76 oed. Teimlai John a'i ddau fab, Kirby a Maurice, ei bod yn fraint fawr i'r cwmni. Penderfynwyd peidio â gwneud dim elw o'r gwaith. Dewiswyd yr adeiladwyr gorau i wneud y gwaith. Roedd rhaid hefyd defnyddio'r deunydd gorau i godi'r adeilad. Yn 1962 fe gwblhawyd y gwaith.

Pan fu John farw yn 1978 roedd wedi rhannu'r rhan fwyaf o'i eiddo. Dim ond £371 oedd ganddo, llawer llai na'r gweithwyr oedd wedi bod yn gweithio iddo. Roedd ei gariad tuag at bobl eraill yn bwysicach iddo nag arian.

"O achos dy deml yn Jerwsalem daw brenhinoedd ag anrhegion i ti."

Salm 68:29

O Dad, maddau
y trachwant sy'n ymelwa ar lafur dynion,
ac yn difwyno'r ddaear.
O Dad, maddau.
Amen.

(Gweddi o Eglwys Gadeiriol Coventry)

Pa ansoddeiriau fuasech chi yn eu defnyddio i ddisgrifio John Laing?